# Cyngor Dinas Bangor

## Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Dinas Bangor

Nos Lun 11 Mai 2026 yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams am 6.30pm

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Cynghorwyr:** | Eu Teilyngdod y Maer, Cyng Medwyn Hughes a'r Dirprwy Faer Cyng Delyth Russell. Cyng Salamatu Fada, Cyng Elin Walker Jones, Cyng Sam Njoku, Cyng Gareth Parry, Cyng Nick Pritchard, Cyng Gwynant Roberts, Cyng Eirian Williams Roberts, Cyng Jackie Spence a'r Cyng Lisa Toth. |
| **Officers:** | Martin Hanks, Cyfarwyddwr Dinesig, Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol<br>Carwyn Davies, Swyddog Gweinyddol<br>Hannah Roberts, Cydlynydd Gweithgareddau |
| **Eraill:** | 15 aelod o'r cyhoedd. |
| **Ymddiheuriadau:** | Cyng Steve Bell, Cyng Dylan Fernley, Cyng Huw Wyn Jones, Cyng John Wynn Jones, Cyng Nigel Pickavance, Cyng Mustakim Raza, Cyng Gareth Roberts a'r Cyng John Wyn Williams. |

---

| Eitem | Cyfeirnod | Gweithred |
|---|---|---|
| 1. | **FC01/26** | **Ethol Maer ar gyfer 2026-27**<br>Gofynnodd y Maer am gynigion i ethol Maer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig i ddod 2026-2027.<br><br>Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cyng Delyth Russell. Ni chynigiwyd unrhyw enw arall.<br><br>**PENDERFYNWYD:** penodi'r Cynghorydd Delyth Russell yn Faer Bangor ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2026 – 2027. |
| 2. | **FC02/26** | **Anerchiad gan y Maer newydd**<br>Wedi ei phenodi, rhoddodd Ei Theilyngdod y Maer, Cyng Delyth Russell, anerchiad i'r cyngor.<br><br>Dechreuodd Cyng Russell drwy ddiolch i'r aelodau a oedd wedi ei henwebu i swydd Maer Bangor am y Flwyddyn Ddinesig 2026 - 27. Aeth ymlaen i ddweud fod eu pleidlais yn golygu llawer iddi a'i bod yn ddiolchgar iawn am eu hymddiriedaeth. |

Rhoddodd Cyng Russell amlinelliad o'i blaenoriaethau i Gyngor y Ddinas ar gyfer ei thymor fel Maer. Dywedodd bod ganddi ddiddordeb brwd mewn iechyd a lles ac iechyd meddwl a'i bod yn dymuno blaenoriaethu helpu a chefnogi trigolion a'n cymuned.

Yna dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, mae hi'n edrych ymlaen yn arbennig at fynychu digwyddiadau cymunedol, achlysuron elusennol ac ymweld ag ysgolion, a dathlu'r gwaith anhygoel sy'n digwydd yn ein cymunedau.

3. **FC03/26** **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Cyng Steve Bell, Cyng Dylan Fernley, Cyng Huw Wyn Jones, Cyng John Wynn Jones, Cyng Nigel Pickavance, Cyng Mustakim Raza, Cyng Gareth Roberts a'r Cyng John Wyn Williams.

4. **FC04/26** **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personol**

Dim

5. **FC05/26** **Ethol Dirprwy Faer**

Gwahoddodd y Maer enwebiadau am swydd y Dirprwy Faer. Cafodd enw'r Cyng Jackie Spence ei gynnig a'i eilio.

**PENDERFYNWYD:** Ethol Jackie Spence yn Ddirprwy Faer Dinas Bangor am y Flwyddyn Ddinesig newydd 2026/2027.

Urddodd y Maer y Cyng Spence â Chadwyn Swydd y Dirprwy Faer. Yna darllenodd Cyng Spence y Datganiad Derbyn Swydd Dirprwy Faer Cyngor Dinas Bangor ym mhresenoldeb y Cyfarwyddwr Dinesig a'r Swyddog Priodol, a lofnododd y Datganiad.

6. **FC06/26** **Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 12 Mai 2025**

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhawyd fod y cofnodion yn gofnod gwir o'r cyfarfod.

7. **FC07/26** **Cytuno ar amserlen cyfarfodydd i'r cyngor newydd**

*Roedd dwy amserlen bosibl i gyfarfodydd y flwyddyn ddinesig nesaf wedi'i hanfon cyn y cyfarfod hwn.*

Cafwyd dau amrywiad ar amserlen y cyfarfodydd. Roedd y naill yn cynnig fod y cyngor llawn yn cyfarfod bob mis. Roedd yr ail gynnig yn golygu y byddai'r cyngor llawn yn cyfarfod unwaith bob dau fis gyda chyfarfod pwyllgor ar y misoedd lle nad oedd cyfarfod cyngor wedi'i drefnu.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem hon tan gyfarfod llawn nesaf y cyngor, sef ar 8 Mehefin 2026.

8. **FC08/26** **Cymeradwyo Rheolau Sefydlog y Cyngor**

**PENDERFYNWYD:** gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gynnwys yr eitem hon ar agenda cyfarfod llawn nesaf y cyngor ar 8 Mehefin 2026.

9. **FC09/26** **Cymeradwyo Rheolau Ariannol newydd**

**PENDERFYNWYD:** gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gynnwys yr eitem hon ar agenda cyfarfod llawn nesaf y cyngor ar 8 Mehefin 2026.

10. **FC10/26** **Cymeradwyo Strwythurau Pwyllgor y Cyngor**

**PENDERFYNWYD:** gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gynnwys yr eitem hon ar agenda cyfarfod llawn nesaf y cyngor ar 8 Mehefin 2026.

11. **FC11/26** **Penodi cynrychiolwyr ar gyrff allanol**

**PENDERFYNWYD:** gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gynnwys yr eitem hon ar agenda cyfarfod llawn nesaf y cyngor ar 8 Mehefin 2026.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7:00pm**.

**Llofnodwyd gan:** ................................................

**Dyddiad:** ................................................